# Canlyniadau Ymgynghoriad Ysgolion 21 Ganrif Canlyniad

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools



# Bae Cinmel

**A ydych yn credu y gellid gwneud eich adeilad ysgol yn well?**

80% YDW

**Pa ysgol ydych chi'n gysylltiedig â hi?**

| | |
|---|---|
| Ysgol Y Foryd | 71 |
| Ysgol Maes Owen | 40 |
| Ysgol Emrys ap Iwan | 11 |
| Dim | 0 |

**Pwy gymerodd ran?**

| | |
|---|---|
| Disgybl | 1 |
| Rhieni/gwarcheidwaid | 47 |
| Staff | 40 |
| Llywodraethwr | 5 |
| Cyhoedd | 3 |
| Cynghorydd | 4 |
| Arall | 1 |

**Pa wasanaethau 'ychwanegol' sy'n bwysig i chi mewn ysgol?**

| | |
|---|---|
| Mannau Parcio / Gollwng | 63 |
| Clwb Brecwast | 62 |
| Darpariaeth ADY | 56 |
| Darpariaeth Dysgu Yn Yr Awyr Agored | 51 |
| Cyfleusterau Chwaraeon / Hamdden | 49 |
| Clybiau Ar Ôl Ysgol | 47 |
| Defnydd cymunedol | 33 |
| Cyn Ysgol / Cylch | 25 |
| Cysylltiadau cludiant cyhoeddus | 24 |
| Arall | 2 |

**Beth hoffech chi ei weld?**

| | |
|---|---|
| Uno'r ddwy ysgol mewn adeilad newydd pwrpasol. | 49 |
| Adnewyddu Cyffredinol / Trwsio a Chynnal a Chadw (i ardaloedd yn yr ysgolion presennol) | 24 |
| Disodli unrhyw ystafelloedd dosbarth dros dro gydag adeiladau parhaol | 18 |
| Uno'r ddwy ysgol yn adeiladau'r ysgol gyfredol. | 4 |
| Arall | 6 |

**Pa mor bell o safle presennol yr ysgol fyddech chi'n barod i deithio i unrhyw ysgol newydd?**

| | |
|---|---|
| 0 – 0.5 milltir | 19 |
| 0.5 – 1 filltir | 22 |
| 1 – 2 filltir | 27 |
| 2 - 3 milltir | 10 |
| 3+ milltir | 16 |

**Cod post yr ymatebwyr**

| | |
|---|---|
| LL17 | 1 |
| LL18 | 23 |
| LL19 | 1 |
| LL22 | 8 |
| LL28 | 1 |

Ydych chi'n credu a oes angen gwella adeilad eich ysgol bresennol?
**Rhai ymatebion:**

Mae adeiladau presennol yr ysgol yn hen.

Gyda chyllid priodol fel nad yw staff yn teimlo bod eu swyddi dan fygythiad. Atal toriadau cyllid.

Mae angen ailwampio i ddechrau gan fod yr adeiladau yn hen ac nid oes cegin yn y Foryd. Adeilad newydd yw'r unig ffordd ymlaen i'n hysgolion lleol yn Nhowyn a Bae Cinmel. Sicrhau darpariaeth y tu allan i addysgu.

Gyda chyllid priodol fel nad yw staff yn teimlo bod eu swyddi dan fygythiad. Atal toriadau cyllid.

Er byddai adeiladau newydd yn ddelfrydol, mae'n debyg ei bod yr un mor bwysig ailddatblygu mewn ffordd sy'n galluogi'r ddwy ysgol i gadw eu hunaniaeth unigryw.

Mae angen codi dyheadau ein disgyblion/cymuned. Maen nhw angen cael eu hysbrydoli a'u cyffroi bob dydd gan eu hamgylchedd. Byddai adeilad newydd yn sicrhau hyn. Mae ein disgyblion yn haeddu cyfleusterau a fydd yn galluogi staff yr ysgol i'w paratoi ar gyfer y dyfodol.

Byddai angen rhagor o wybodaeth arnaf cyn rhoi fy marn.

Mae Ysgol Maes Owen yn bendant angen ei diweddaru ac mae angen rhagor o le yn y Foryd, byddai uno yn ddelfrydol. Rwy'n hapus gydag Emrys ap Iwan fel safle.

Mae'n gweithio'n dda iawn fel ysgolion ar wahân a byddai'n well gennyf iddynt aros fel hyn.

Staff ychwanegol

Ailadeiladu fel y mae ar hyn o bryd nid ydym yn cydweithio'n agos. Gallai/Byddai un ysgol wedi'i huno yn golygu na fyddai gan rai aelodau staff swyddi, h.y. byddai 2 swydd pennaeth yn troi'n 1 swydd.

Mae manteision clir o uno i gynorthwyo â'r newid, ni ellir ailwampio'r un o'r ddwy ysgol yn llwyddiannus ar gyfer cwricwlwm sy'n newid.

Mae digon o dir lle mae'r ganolfan hamdden a'r tu ôl i'r ddwy ysgol. Hefyd mae safle heb ei ddefnyddio ar barc diwydiannol Bae Cinmel a fyddai'n helpu â problemau traffig oherwydd gallech weithredu system ollwng ar gyfer ceir ac ati.

Byddai'n wych pe bai'r ysgol fabanod a'r ysgol iau yn un, wedi'i rheoli gan un pennaeth gyda'r un weledigaeth.

**Sylwadau cyffredinol**

Mae gan Tir Llwyd isadeiledd gwych. Y brif broblem yn y safle bresennol yw mynediad diogel i gerbydau.

Mae angen i'r adeilad newydd ymgysylltu'r gymuned y tu allan i oriau'r ysgol, mae angen iddo fod ar agor i grwpiau cymunedol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (cwnselwyr, nyrsys cymunedol), mae angen iddo fod yn wyrdd o ran adeiladwaith ac o ran ei redeg.

Mae gennym ddigon o le ar ein safle ysgol.

Mae ymgysylltu â'r gymuned ar y cam hwn yn hanfodol, mae gwasanaethau llyfrgell yn hanfodol ac mae angen iddynt fod yn rhan. Mae'r feithrinfa yn hanfodol, mae angen ei chynnal. Adeiladau cymunedol anghenion arbennig – h.y. cymuned, swyddfeydd cyngor (cyngor tref), llyfrgell, iechyd, stoc tai. Fodd bynnag, mae angen i gynlluniau'r dyfodol roi ystyriaeth i'r gorlifdir.

Yn bendant mae angen moderneiddio a gobeithio uno Ysgol y Foryd a Maes Owen. Rwy'n teimlo bod y tir mae'r 2 ysgol arno yn ddelfrydol ar gyfer hyn, gyda chwmpas posibl i ddefnyddio'r ganolfan hamdden hefyd? Rwy'n teimlo bod yr ysgol yng nghalon y gymuned ac yn hygyrch i bawb. Ac mae'r perygl llifogydd yn llai nag yn yr ardaloedd posibl eraill.

Mae pryder o golli swyddi os bydd yr ysgolion yn uno. Hefyd bydd ansawdd ysgol fabanod y Foryd yn newid. Mae llawer yn hoffi ysgol fabanod i blant ifanc.

I mi ond byddai angen ei chadw mor agos ag sy'n bosibl. Byddai'n hyfryd gweld arian o raglen ysgolion yr 21ain ganrif yn cael ei wario yma ym Mae Cinmel/Towyn. Ar hyn o bryd nid yw'r 2 ysgol yn addas i'r diben ar gyfer gofynion modern cwricwlwm yr ysgol. Buaswn wrth fy modd yn gweld un ysgol wedi'i huno yma i blant o 2.5/3 oed at 11 oed.

Mae'r ddwy ysgol wedi gwasanaethu'r gymuned yn dda ac maen nhw'n parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, gellid cyflawni llawer mwy o bosibl trwy gydweithio mewn cyfleusterau newydd addas i'r diben. Byddai hyn yn caniatáu rhagor o ddefnydd gan y gymuned o bosibl, yn enwedig o ystyried y cysylltiadau ag ardaloedd cymunedau yn gyntaf er mwyn sicrhau bod yr ysgol wrth galon y gymuned.

Yn bendant nid wyf yn credu y dylid uno'r ysgol fabanod a'r ysgol iau fel a ofynnir yng nghwestiwn 4. Rwy'n teimlo bod y sefyllfa bresennol, sef bod y ddwy ysgol ar wahân, yn ased werthfawr.

Byddai'n wych pe bai'r ysgol fabanod a'r ysgol iau yn uno fel ysgolion eraill.

Mae parcio yn broblem fawr – mae damwain ar fin digwydd. Dylid sicrhau man casglu/gollwng.

## Diolch i bawb a gymerodd ran ac am ychwanegu i'r broses.